LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 09**

**Teitl:** Profiad pobl o fynd i weld deintydd yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Ar gyfer trafodaeth |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Nodi a chytuno ar y cynnwys |
| **Risg / Risk** | Bydd analluu i adrodd yn effeithiol ar ein canfyddiadau, a'u cyfathrebu, yn cael niwed sylweddol i enw da yn ogystal â methiant i gyflawni ein rhwymedigaethau o ran y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu a'n Dogfen Fframwaith gyda'n tîm Partneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru. |
| **Cyllid / Finance** | Mae effeithiau ar gyllid mewn perthynas â chyfathrebu ein canfyddiadau. Mae hyn o fewn y gyllideb a rhoddir cyfrif amdano yn y rhagolygon. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol** | 01: Ysgogi sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – drwy ein sgyrsiau â'r cyhoedd drwy'r prosiect ymchwil a'n gweithgareddau ymgysylltu ein hunain.<br><br>02: Gwthio am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb – drwy gynrychioli ein canfyddiadau ar fynediad at ddeintyddiaeth a'n cynllun cysylltiedig ar gyfer gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r camau gweithredu sydd eu hangen.<br><br>03: Cydweithio'n well – drwy ein cynllun i chwilio am atebion drwy weithio mewn partneriaeth.<br><br>04: Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n |

| | |
|---|---|
| | gweithio iddyn nhw – trwy ein rhan ym mhrosiect porth mynediad deintyddol IGDC.<br><br>Canlyniadau: Bydd ein gweithgareddau ymchwil ac ymgysylltu, ochr yn ochr â chynllun ar gyfer dosbarthu'r canfyddiadau a chynnwys rhanddeiliaid wrth fynd i'r afael â chamau gweithredu posibl, yn cryfhau perthnasoedd ac yn cryfhau ein llais a'n heffaith o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd llwyddiant yn golygu bod ein dirnadaeth wedi arwain at newidiadau gwirioneddol mewn polisïau ac arferion, mae ein dylanwad i'w weld yn glir mewn gwelliannau ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Cwblhawyd Asesiadau Effaith Integredig Cysylltiedig ar gyfer ein gweithgareddau.<br><br>Trwy'r prosiect ymchwil a gweithgareddau ymgysylltu Llais rydym wedi gweithio i gyrraedd cymaint o gymunedau â phosibl a sicrhau bod ein dulliau casglu data yn hygyrch. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Amh |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Sesiwn Datblygu Bwrdd Mehefin 2024 |

| | |
|---|---|
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Ben Eaton, Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| **Dyddiad / Date** | 25.09.24 |

**Cefndir / Background**

Ym mis Mawrth 2024, comisiynodd Llais ACCESS, sef ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol, i gynnal astudiaeth ansoddol gyda'r nod o ddeall profiadau'r cyhoedd o ofal deintyddol yng Nghymru.

Amcanion yr ymchwil hwn oedd:

Casglu mewnwelediadau ar brofiadau a barn y cyhoedd yng Nghymru o gael mynediad at ofal deintyddol.

Nodi pa agweddau ar y system gofal deintyddol y mae'r cyhoedd yn credu sy'n gweithio'n dda a pha feysydd sydd angen eu gwella

Llunio argymhellion i wella mynediad at ofal deintyddol, yn seiliedig ar adborth gan y cyhoedd, yn unol â'n blaenoriaeth strategol Cymru gyfan.

Defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol gennym:

● Arolwg (Saes/Cym): Ymchwilio i ystod amrywiol o brofiadau a darparu cynrychiolaeth gynhwysol o'r cyhoedd. Cynhaliwyd hwn ar-lein a dosbarthwyd copïau caled gan dimau rhanbarthol Llais yn ystod gweithgareddau ymgysylltu.

Roedd hwn ar agor 20 Mawrth – 15 Ebrill 2024 a chawsom 416 o ymatebion cyflawn i'r arolwg.

● Grwpiau Ffocws: grŵp ffocws ar-lein gyda naw o wirfoddolwyr Llais, a rannodd eu profiadau personol a'r safbwyntiau a gasglwyd ganddynt drwy ymgysylltu â'r cyhoedd.

● Cyfweliadau: Gyda 31 o unigolion o ystod o ddemograffeg a lleoliadau.

● Triongli Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Argymhellion: tynnu ynghyd a chyfuno tystiolaeth i ddatblygu argymhellion ar gyfer gwella.

Ymgysylltwyd â chyfanswm o 456 o bobl yn ein gwaith maes ymchwil:

- roedd 362 o gefndiroedd Gwyn Prydeinig (87%)
- Nodwyd bod 25 o gefndiroedd Gwyn Arall gan gynnwys Ewropeaidd, Gwyddelig, Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig.
- Roedd 12 cyfranogwr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig (3%),
- Roedd yn well gan 17 "beidio â dweud" neu wedi gadael y maes hwn yn wag (4%).
- Nododd 18% o ymatebwyr (73) yr arolwg fod ganddynt anabledd a oedd yn cynnwys anableddau corfforol, datblygiadol a/neu ddysgu yn ogystal â chyflyrau iechyd hirdymor.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi triongli canfyddiadau'r ymchwil gyda thystiolaeth o'n gweithgareddau gwrando agored, ymgysylltu rhanbarthol ac ymgysylltu drwy ddigwyddiadau cenedlaethol dros yr Haf gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, y Sioe Frenhinol a Balchder. Buom yn ymgysylltu ag 8,554 o bobl rhwng mis Ebrill a mis Medi, yn fisol, diffyg mynediad at ddeintyddiaeth y GIG oedd un o'r materion mwyaf cyffredin a godwyd gyda ni.

Mae canfyddiadau ein gweithgareddau yn gyson â'r themâu a ddeilliodd o'r prosiect ymchwil, a nodwyd dwy thema ychwanegol.

## Manylion / Detail

**Yr hyn a glywsom:**

Mae nifer o themâu allweddol wedi dod i'r amlwg o ran profiad pobl o gael mynediad at ddeintydd:

**Diffyg mynediad at ofal deintyddol:**

- Roedd mwy nag 1 o bob 3 o bobl heb gofrestru gyda deintydd neu ar restr aros.
- O'r rhai a oedd wedi cofrestru, roedd 45% yn derbyn gofal preifat, 51% y GIG a 4% yn gymysgedd o ofal y GIG a gofal preifat.

- Dywedodd 39% o gleifion y GIG nad oedd yn hawdd cael apwyntiad o gymharu â dim ond 2% o gyfranogwyr sydd wedi cofrestru gyda deintyddion preifat

- O'r rhai nad oeddent wedi cofrestru neu ar restr aros, nid oedd 30% wedi gweld deintydd ers dros 2 flynedd a 30% arall ers dros 5 mlynedd.

- Cytunodd 91% o'r cyfranogwyr fod trefnu gofal GIG yn fwy heriol na chael mynediad at driniaeth breifat

**Anghydraddoldebau o ran mynediad a'r grwpiau yr effeithir arnynt fwyaf:**

- ***Plant a phobl ifanc*** – dywedodd llawer nad oedd eu plentyn erioed wedi gweld deintydd

- ***Pobl anabl*** – polisïau aneglur ar flaenoriaethu cleifion anabl, mae'r gostyngiad yn argaeledd hylenyddion deintyddol yn effeithio'n sylweddol ar y rheini â namau corfforol, a all fod angen y math hwn o ofal ataliol yn fwy nag eraill, rhwystrau hygyrchedd corfforol mewn cyfleusterau deintyddol, yn enwedig mewn adeiladau hŷn neu'r rheini sy'n anodd cyrraedd mewn car, amseroedd aros hirfaith

- ***Pobl hŷn*** - anawsterau sy'n ymwneud â theithio a chael mynediad i gyfleusterau deintyddol sydd yn aml mewn adeilad hŷn heb fynediad hygyrch.

- ***Grwpiau incwm isel*** - dangosodd arolwg fod pobl ar ben isaf y sbectrwm economaidd yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru gyda deintydd o gymharu â'r rhai ag incwm uwch.

- Dim ond 4% o ymatebwyr sydd heb ddigon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol oedd wedi cofrestru gyda deintydd.

**Fforddiadwyedd gofal deintyddol:**

- Roedd 74% o'r bobl a holwyd yn cytuno nad yw gofal deintyddol yn fforddiadwy ar y cyfan

- pobl heb incwm gwario, ond yn cael eu gorfodi naill ai i fynd yn breifat i gael y gofal deintyddol sydd ei angen arnynt neu fynd hebddo nes iddynt ddod o hyd i ddeintydd GIG

- Gwnaeth nifer o bobl sylwadau hefyd am y cynnydd yng nghost gofal deintyddol y GIG

**Ansawdd gofal deintyddol:**

- consensws cyffredinol ei bod yn ymddangos bod ansawdd y gofal yn gyffredinol wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf wrth i'r pwysau ar y system gynyddu

- nifer o bobl yn nodi bod llai o dosturi ac empathi yn y system gofal deintyddol o gymharu â'r hyn a ddarparwyd yn y gorffennol.

- teimlad cryf ar draws pob grŵp bod gwahaniaeth mewn ansawdd cyffredinol rhwng gofal y GIG a gofal preifat, er bod yr un deintyddion yn aml yn gweithio ar draws y ddau lwybr

**Diffyg gofal ataliol:**

- dywedodd cyfranogwyr wrthym eu bod wedi profi diffyg mynediad cynyddol at ofal ataliol o fewn y GIG yng Nghymru, gydag apwyntiadau hylenydd yn anodd eu cyrraedd ac nad oeddent yn fforddiadwy i lawer.

*Mae is-themâu yn cynnwys:* practisau'n mynd yn breifat, practisau yn gwrthod derbyn y GIG, dim darpariaeth GIG leol, teithio helaeth, recriwtio deintyddion newydd, rhestrau aros hir a chansladau, apwyntiadau brys yn unig

Yn ogystal â'r ymchwil a wnaed, mae dwy thema ychwanegol wedi dod i'r amlwg o'n gweithgareddau ymgysylltu:

- Diffyg mynediad i ddeintyddiaeth i fenywod beichiog

- Polisïau anghyson ynghylch mynediad at ddeintyddiaeth gymunedol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches

**Sut y byddwn yn rhannu ac yn gweithredu ar yr hyn a glywsom:**

*Erbyn diwedd Medi 2024*

**Ein cynllun ar gyfer rhannu'r hyn y mae pobl wedi'u dweud wrthym**

Rydym ar hyn o bryd yn defnyddio'r canfyddiadau i ddatblygu datganiad safbwynt Llais ynghylch mynediad at ddeintyddiaeth yng Nghymru.

Byddwn yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd a chyrff cyhoeddus ledled Cymru ac yn monitro eu hymatebion, ar faterion gan gynnwys:

1. Yr angen am lwyfan Cymru gyfan a fydd yn galluogi nodi pa ddeintyddion sy'n cymryd cleifion y GIG. (IGDC)
2. Yr angen am ddarganfyddwr gwasanaeth canolog ar gyfer deintyddiaeth, fel sydd eisoes yn bodoli yn Lloegr (IGDC, GIG Cymru)

Ymhellach i hyn:

- Rydym yn datblygu hysbysiad cenedlaethol i'r wasg
- Rydym yn creu adnodd sy'n cyfeirio pobl at sut y gallant gofrestru ar gyfer deintyddiaeth y GIG yn eu rhanbarth
- Rydym yn creu ffeithluniau sy’n ymwneud â’r canfyddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i’r cyhoedd, ynghyd â fersiwn Hawdd ei Ddarllen o grynodeb gweithredol yr adroddiad ymchwil.
- Rydym yn bwriadu defnyddio ein cylchlythyr allanol a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r gwaith hwn ac annog cyfraniadau pellach i'n cronfa wybodaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth i ddod o hyd i atebion i'r heriau**

*Tachwedd 2024*

Byddwn yn ceisio datblygu darnau o waith a rennir mewn partneriaeth â sefydliadau eraill o amgylch y canlynol:

*Dechrau Tach*

- Ymgysylltu â gweithwyr deintyddol proffesiynol i gael eu mewnwelediadau a'u hatebion
- Sgyrsiau gyda phartneriaid ledled y DU ar faterion a wynebir ledled y DU, gan ganolbwyntio ar ddeall beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda.
- Ceisio casglu ymateb sefydliadau/unigolion perthnasol i'r ymchwil drwy gyfres o ddarnau 'mewn sgwrs â…' e.e. BDA, Prif Swyddog Deintyddol, gweithiwr deintyddol proffesiynol cynrychioliadol, IGDC, GIG Cymru

*Diwedd Tach*

- Dosbarthu gwahoddiadau i drafodaeth bord gron gyda sefydliadau rhanddeiliaid a chynrychiolwyr gwleidyddol i edrych ar y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd drwy ein hymgysylltu â'r cyhoedd

*Dechrau Rhagfyr 2024*

- *Cynnal trafodaeth bord gron*
- *Ceisio dechrau sgyrsiau ar safoni gofal ataliol ar draws darparwyr gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru)*
- *Parhau i fod yn rhan o drafodaethau gyda IGDC mewn perthynas â'r Porth Mynediad Deintyddol ac ymgysylltu â'r gymuned*

*Ionawr 2025 ymlaen*

- Ymchwil pellach ar anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal deintyddol.
- Ymchwiliad â ffocws i fynediad gofal deintyddol i blant a phobl ifanc.